



# GWYDDONIAETH BLWYDDYN 5-6 Cylched A – Uned 4

## Ailgylchu

Richard Watkins, GWE  
richardwatkins@gwegogledd.cymru  
@DrRWatkins

### YSTOD

#### **Daear Gynaliadwy**

6. ystyried beth yw gwastraff a beth sy'n digwydd i wastraff y gellir ei ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu

### GEIRFA ALLWEDDOL

solid  
hylif  
nwy  
anweddiad  
cyddwysiad  
cildroadwy  
anghildroadwy  
hydoddi  
hydawdd  
anhydawdd  
cymysgedd  
ailddefnyddio  
ailgylchu  
**amrywiadau**  
**grafr llinell**  
**dibynadwyedd**  
**graddfa**

### Datblygu meddwl

(Integreiddio Cynllunio-  
Datblygu-Myfyrio mewn  
gweithgareddau)



### FfLIRh – Prif Linyddau Rhifedd\*

#### **Llinyn:**

Datblygu ymresymu rhifyddol

#### **Elfen:**

Adnabod prosesau a chysylltiadau  
Cynrychioli a chyfathrebu  
Adolygu

#### **Llinyn:**

Defnyddio sgiliau mesur

#### **Elfennau:**

Hyd, pwysau/más, cynhwysedd  
Tymheredd  
Arwynebedd a chyfaint  
Ongl a safle

#### **Llinyn:**

Defnyddio sgiliau data

#### **Elfennau:**

Casglu a chofnodi data, Cyflwyno a dadansoddi data,  
Dehongli canlyniadau

\*Cyfeirio at y Fframwaith Rhifedd am fanylion y sgiliau penodol sydd oddi mewn i bob elfen

### FfLIRh – cyfleoedd Llythrennedd (ysgrifennu)

**Elfen:** Trefnu syniadau a gwybodaeth  
Ysgrifennu'n gywir

Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth, rhoi  
cyfarwyddiadau ac i berswadio

### Datblygu TGCh



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i ddatblygu'r  
sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

### Cwricwlwm Cymreig



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i  
ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

### Addysg Bersonol a Chymdeithasol



*Yr ysgol i adnabod a darparu cyfleoedd i  
ddatblygu'r sgil hwn o fewn sgôp yr uned*

## Gwyddoniaeth – Cynllun Tymor canolig (hanner tymor)

Grŵp blwyddyn	5-6	Tymor	Cylched A – Uned 4	Teitl yr Uned	Ailgylchu
<b>Ystod: Y Ddaear Gynaliadwy</b> 6. ystyried beth yw gwastraff a beth sy'n digwydd i wastraff y gellir ei ailgylchu a gwastraff nad oes modd ei ailgylchu					
<b>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</b>					
Sgiliau (Prif sgiliau mewn llythrennau italig trwm)	Gweithgareddau posibl	Adnoddau a dolenni	Cyfleoedd i asesu		
<b>CYNLLUNIO</b> <i>Nodi bylchau mewn gwybodaeth flaenorol</i>  Gofyn cwestiynau perthnasol	<b>1. Y Cwestiwn Mawr: Beth yw'ch barn am ailgylchu?</b>  <b>Deunyddiau sy'n Newid: Gwyddoniaeth CA2 GCaD</b> Adolygu syniadau'r disgyblion o Uned 3 am natur deunyddiau, cyflwr newidiol a sut mae rhai deunyddiau bob dydd yn cael eu ffurfio a'u cynhyrchu. Ystyried defnyddio: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgaredd 'pa un sy'n wahanol?' neu weithgareddau rhyngweithiol ar-lein.</li> <li>• Bwrdd graffiti / wal gwestiynau i osod cwestiynau'r disgyblion.</li> </ul> Hefyd, adolygu geirfa allweddol o Uned 3, gan gynnwys: solidau, hylifau, nwyon, toddi, oeri, rhewi, anweddiad, cyddwysiad, cildroadwy, anghildroadwy.  Cyflwyno / ailedrych ar hydoddi. Archwilio amryw o ddeunyddiau bob dydd / bwydydd – sy'n hydoddi? Disgrifio beth sy'n digwydd. Esbonio trwy ddefnyddio iaith wyddonol.  <b>Aildefnyddio neu ailgylchu? Ailgylchu: DYG Uned 3</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyn i'r disgyblion ystyried beth y maent yn ei ddeall am y termau aildefnyddio ac ailgylchu.</li> <li>• Mewn parau, cofnodi'u syniadau am sbwriel ar ffurf map cysyniad ar 'Daflen Ymholiadau Sbwriel'. Anodi'n briodol.</li> <li>• Gofyn i barau rannu ac esbonio'u syniadau.</li> <li>• Rhestru cwestiynau yr hoffai'r disgyblion eu hateb. Sut fyddant yn mynd ati i ateb y cwestiynau hyn? A oes angen i'r disgyblion gynnal ymholiadau ymarferol, ymchwil neu holiaduron?</li> </ul>	<a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/E22-The-Earth-s-Resources/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/E22-The-Earth-s-Resources/index.html</a>  <a href="http://www.recycling-guide.org.uk/rrr.html">http://www.recycling-guide.org.uk/rrr.html</a>  <a href="http://www.wasteawarenesswales.org.uk/recycle/index.html">http://www.wasteawarenesswales.org.uk/recycle/index.html</a>  <a href="http://www.recyclezone.org.uk/">http://www.recyclezone.org.uk/</a>  DYG Uned 3	Defnyddio strategaeth / offeryn diagnostig dewisedig		

<p><b>CYNLLUNIO</b> <i>Nodi amrywiadau allweddol mewn prawf teg</i></p> <p><i>Amlinellu cynllun/dull</i></p> <p><b>DATBLYGU</b> Defnyddio offer a chyfarpar yn gywir ac yn ddiogel</p> <p><b>MYFYRIO</b> Disgrifio sut y maent wedi dysgu</p>	<p><b>2. Y Cwestiwn Mawr: Beth sy'n effeithio ar ba mor gyflym y mae solid yn hydoddi mewn dŵr?</b></p> <p><b>Deunyddiau sy'n Newid: Gwyddoniaeth CA2 GCaD.</b> Trafod enghreifftiau o gyflwr newidiol ac yna agweddau ar hydoddi o Weithgaredd 2. Esbonio cysyniadau gan ddefnyddio modelau syml.</p> <p>Adolygu cwestiynau a thrafod pa amrywiadau allweddol sy'n effeithio ar ba mor gyflym y mae siwgr/halen yn hydoddi mewn dŵr.</p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Nodi amrywiadau allweddol a chynllunio dull</b> Defnyddio Cartwnau Cysyniad a/neu weithgaredd didoli cardiau i sbarduno trafodaeth/dadl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sut fydd y disgyblion yn archwilio ac ateb y cwestiwn hwn? Grwpiau'n trafod ac amlinellu cynllun/dull.</li> <li>Pa ffactor y byddant yn ei newid? (e.e. màs y solid, tymheredd y dŵr ac ati)</li> <li>Beth fyddant yn ei fesur?</li> <li>Sut fyddant yn cofnodi eu canfyddiadau?</li> <li>Pa offer fydd eu hangen ar y disgyblion?</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Nodi amrywiadau allweddol a chynllunio dull</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Disgyblion yn cynnal ymholiad prawf teg.</li> <li>Gosod eu canfyddiadau mewn tablau.</li> <li>Efallai y bydd rhai disgyblion yn dewis defnyddio logiwr data i fesur tymheredd.</li> <li>Trafod canfyddiadau? Ar beth mae'r disgyblion yn ei sylwi?</li> <li>Beth yw'r casgliadau y gallant ddod iddynt o'u gwaith?</li> <li>A yw'r disgyblion yn gallu awgrymu gwelliannau i'w dull(iau)?</li> </ul>	<p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/E22-The-Earth-s-Resources/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/E22-The-Earth-s-Resources/index.html</a></p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/">http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</a></p> <p>Templed Cartwnau Cysyniad</p> <p>Templedi cynllunio rhyngweithiol</p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu cydnabod amrywiadau gyda chymorth? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu cydnabod pob amrywiad allweddol? (Lefel 5)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu defnyddio gwybodaeth a sgiliau gwyddonol i gynllunio? (Lefel 4)</i></p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau a ffurfio barn ystyriol? (Lefel 4)</p>
<p><b>CYNLLUNIO</b> Cynllunio'r broses/dull a ddefnyddir</p> <p>Rheoli peryglon a risgiau</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Gwneud arsylliadau gofalus</i></p> <p><i>Esbonio gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> Cysylltu dysgu â sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol ac mewn mannau eraill.</p>	<p><b>3. Y Cwestiwn Mawr: Sut ydym yn ailgylchu (adfer) solidau hydawdd o ddŵr?</b></p> <p>Adolygu canfyddiadau o'r dasg flaenorol. Adolygu dulliau o dynnu gronynnau mawr (tywod/graean ac ati) o ddŵr. Allwn ni ddefnyddio rhidyll i dynnu tywod/siwgr o ddŵr? Sut allwn gyflawni hyn? Trafod enghreifftiau o ddillad yn sychu a phyllau yn anweddu ac ati. Cyflwyno/adolygu'r cysyniad o anweddiad.</p> <p>Gosod cwestiwn yng nghyd-destun ailgylchu/adfer solidau anhydawdd a hydawdd o ddŵr, (e.e. tywod a halen) a/neu lanhau dŵr budr.</p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Gwneud arsylliadau gofalus ac esbonio canfyddiadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sut allwn greu prawf i ganfod sut i gyflymu'r broses anweddu? Trafod syniadau'r disgyblion.</li> <li>Beth yw'r amrywiadau allweddol? (e.e. tymheredd y dŵr, arwynebedd a dyfnder y dŵr.)</li> <li>Cynllunio dull – canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau systematig.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Gwneud arsylliadau gofalus ac esbonio canfyddiadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dewis offer a nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer gwaith ymarferol.</li> <li>Cynnal ymchwiliad prawf teg, gan reoli amrywiadau perthnasol.</li> <li>Trafod canfyddiadau a nodi patrymau a thueddiadau.</li> <li>Ystyried cynhyrchu strip cartŵn (gan ddefnyddio meddalwedd gyfrifiadurol, e.e. Comic Life) i gyflwyno'r gwaith.</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth Math testun: adroddiad gwyddonol</b></p>	<p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html</a></p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/">http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu gwneud arsylliadau ansoddol a defnyddio offer safonol i fesur gan ddefnyddio unedau SI? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dewis yr offer mesur sy'n eu galluogi i wneud mesuriadau cywir? (Lefel 5)</i></p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu nodi patrymau a thueddiadau? (Lefel 4)</p>

<p><b>CYFATHREBU</b> Chwilio am wybodaeth wyddonol berthnasol</p> <p><b>CYNLLUNIO</b> Amlinellu sut i ddod o hyd i wybodaeth wyddonol</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Gwahaniaethu rhwng ffaith, cred a barn</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> Awgrymu sut y gellid gwella'r dull</p>	<p><b>4. Y Cwestiwn Mawr: I ble mae ein sbwriel yn mynd? A ddylem ddefnyddio safleoedd tirlenwi?</b></p> <p><b>Ailgylchu: DYG Uned 3</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Gwahaniaethu rhwng ffaith, cred a barn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Trafod sut y mae llawer o sbwriel yn cael ei gadw mewn safleoedd tirlenwi. Asesu syniadau/barn y disgyblion am safleoedd tirlenwi ar ffurf arolwg/holiadur cryno.</li> <li>Ystyried ymchwilio i farn teulu a ffrindiau trwy gyfrwng holiadur gwaith cartref.</li> <li>Ystyried defnyddio'r rhyngwyd i chwilio am wybodaeth am safleoedd tirlenwi yn eu hardal leol a rhannau eraill o Gymru.</li> <li>Gallai'r disgyblion ddangos lleoliad y safleoedd tirlenwi ar fap o Gymru neu yn ardal eu hawdurdod lleol.</li> <li>Trafod dosbarthiad safleoedd tirlenwi. Beth yw goblygiadau gosod safleoedd tirlenwi mewn lleoliadau penodol?</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Gwahaniaethu rhwng ffaith, cred a barn</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Wrth i'r grwpiau gasglu gwybodaeth, gofyn iddynt ysgrifennu rhai o effeithiau'r safleoedd tirlenwi hyn ar bapurau gludiog. Dylai'r nodiadau gynnwys dadleuon o blaid ac yn erbyn safleoedd tirlenwi.</li> <li>A yw'r disgyblion yn gallu dechrau gwahaniaethu rhwng ffaith, cred a barn?</li> <li>Cofnodi eu syniadau am effeithiau safleoedd tirlenwi ar boster neu ar eu bwrdd gwyn rhyngweithiol. Gallent ludo eu papurau gludiog gan ddangos y dadleuon 'o blaid' ac 'yn erbyn' wrth ymyl ei gilydd. Fel dosbarth/grŵp, creu poster gan gynnwys dadleuon o blaid ac yn erbyn.</li> <li>Annog disgyblion i gyflwyno rhai o'u canfyddiadau ar ffurf tablau/siartiau bar (e.e. canfyddiadau holiaduron).</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac i berswadio</b> <b>Math testun: Poster cyhoeddusurwydd</b></p>	<p>DYG Uned 3</p> <p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html</a></p> <p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/E22-The-Earth-s-Resources/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/E22-The-Earth-s-Resources/index.html</a></p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/">http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu gwahaniaethu rhwng ffaith, cred a barn? (Lefel 4)</i></p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu canfod a defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, gwybodaeth a syniadau? (Lefel 4)</p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu canfod a defnyddio tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau perthnasol? (Lefel 5)</p>
<p><b>CYFATHREBU</b> Cyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio tablau, graffiau bar a graffiau llinell</p> <p><b>CYNLLUNIO</b> Cynllunio dull/ymagwedd</p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Gwneud cymariaethau a nodi patrymau/tueddiadau mewn data</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> Awgrymu sut y gellid gwella'r dull</p>	<p><b>5.Y Cwestiwn Mawr: Allwn ni wella cyfraddau ailgylchu'r ysgol?</b></p> <p><b>Ailgylchu: DYG Uned 3</b> <b>Deunyddiau sy'n Newid Gweithgaredd 6: Gwyddoniaeth CA2 GCaD</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Gwneud cymariaethau a nodi patrymau/tueddiadau mewn data</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofyn i'r disgyblion fynd â bag plastig gwag i bob dosbarth er mwyn casglu'r holl bapur a defliir yn ystod diwrnod ysgol arferol. Yna, gofyn iddynt ddylunio dull o gofnodi mäs y gwastraff papur a gasglwyd o bob dosbarth ar Ffurflen Ymholiad.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Gwneud cymariaethau a nodi patrymau/tueddiadau mewn data</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gall y disgyblion gynnllunio i gasglu a chofnodi'r mäs o bapur gwastraff a gasglwyd o bob dosbarth bob dydd.</li> <li>Annog y disgyblion i ddefnyddio tablau, siartiau bar ac unedau SI (kg) yn ystod eu gwaith.</li> <li>Creu siart bar i gyflwyno'r canfyddiadau.</li> <li>Trafod canfyddiadau. Pa batrymau/tueddiadau allant eu nodi yn eu data?</li> <li>Defnyddio'r canlyniadau i ysgrifennu adroddiad archwilio ailgylchu blynyddol i gyngor yr ysgol. Ystyried cyflwyno argymhellion i lywodraethwyr yr ysgol.</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac i berswadio</b> <b>Math testun: ysgrifennu gwybodaeth (adroddiad heb fod yn nhrefn amser)</b></p>	<p>DYG Uned 3</p> <p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html</a></p> <p><a href="http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/">http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu nodi patrymau a thueddiadau? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu creu eu tablau a'u siartiau bar eu hunain? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau a ffurfio barn ystyriol? (Lefel 4)</i></p> <p>A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau ac ystyried barn eraill i fod yn sail i'w barn/penderfyniadau? (Lefel 5)</p>

### **CYFATHREBU**

Cyfathrebu'n glir ar lafar, yn ysgrifenedig ac mewn lluniau.

### **CYNLLUNIO**

Chwilio am wybodaeth berthnasol

Gofyn cwestiynau perthnasol

### **DATBLYGU**

**Ffurio barn ystyriol a dod i benderfyniadau deallus**

### **MYFYRIO**

Cysylltu dysgu â sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol ac mewn mannau eraill

## **6. Y Cwestiwn Mawr: Beth yn union ydw i wedi'i brynu?**

**Ailgylchu: DYG Uned 3**

### **Cyflwyno'r sgil – Ffurio barn ystyriol a dod i benderfyniadau deallus**

- Gofyn i bob disgybl ddod â rhywbeth sydd wedi'i becynnu i'r ysgol e.e. bwyd, cryno ddisg ac ati.
- Mewn grwpiau, archwilio a thrafod y deunyddiau a ddefnyddir i becynnu a p'un a yw'r deunydd hwnnw'n angenrheidiol. Annog y disgyblion i feddwl am fanteision ac anfanteision deunydd pecynnu.

### **Ymarfer y sgil – Ffurio barn ystyriol a dod i benderfyniadau deallus**

- Gofyn i'r disgyblion dynnu llun yn dangos deunyddiau pecynnu bob dydd. Gofyn iddynt wneud llun arall i ddangos y deunydd pecynnu newydd y maent wedi'i ddylunio. Cofnodi eu syniadau mewn tabl ar y Ffurflen Ymholiad.
- Datblygu dadl, naill ai 'o blaid' neu 'yn erbyn' deunyddiau pecynnu, a chyflwyno'r ddadl i'r dosbarth. Gallant ofyn i wahanol bobl am eu barn: rhieni, athrawon a disgyblion eraill. Cyflwyno'u dadleuon mewn unrhyw ffordd, e.e. PowerPoint, clip fideo, lluniau, recordiad sain.

**Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac i berswadio (defnyddio TGCh)**

**Math testun: poster neu hysbyseb**

DYG Uned 3

<http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html>

<http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/>

***A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau a ffurfio barn ystyriol? (Lefel 4)***

***A yw'r disgyblion yn gallu dod i gasgliadau ac ystyried barn eraill i fod yn sail i'w barn/penderfyniadau (Lefel 5)***

<p><b>CYNLLUN</b> <i>Dewis meini prawf llwyddiant</i></p> <p><i>Ystyried peryglon a risgiau</i></p> <p><b>DATBLYGU</b> Defnyddio offer yn gywir ac yn ddiogel</p> <p><b>MYFYRIO</b> <i>Gwerthuso canlyniadau yn erbyn meini prawf llwyddiant</i></p> <p>Disgrifio sut y maent wedi dysgu</p>	<p><b>7. Y Cwestiwn Mawr: Allwch chi wneud papur wedi'i ailgylchu eich hun? neu</b> <b>7. Y Cwestiwn Mawr: Allwch chi wneud dyfais ailgylchu (glanhau) dŵr?</b></p> <p>Cyflwyno'r cwestiynau. <b>Deunyddiau sy'n Newid: Gwyddoniaeth CA2 GCaD. Gweithgaredd 6. Papur ac Ailgylchu: Deunyddiau Asesu Opsiynol Uned 7</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Gosod meini prawf llwyddiant ac ystyried peryglon/risgiau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Herio'r disgyblion i nodi un o'r problemau i'w datrys.</li> <li>• Dewis syniad/tasg a chynllunio dull.</li> <li>• Nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer dull a gwaith ymarferol.</li> <li>• Ystyried iechyd a diogelwch ac ymarferoldeb y rysâit dewisedig.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Gosod meini prawf llwyddiant ac ystyried peryglon/risgiau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atgoffa'r disgyblion o'u meini prawf llwyddiant.</li> <li>• Disgyblion i ddilyn cynllun/dull.</li> <li>• Adolygu meini prawf llwyddiant a gwerthuso'r canlyniadau.</li> <li>• Ystyried creu cerdyn ffeil o ffeithiau ar gyfer elusen gymorth yn Affrica i helpu pentrefwyr i ddeall sut i dynnu gronynnau a halen o'u dŵr (DS Pwysleisio wrth y disgyblion nad yw'r dŵr yn ddiogel i'w yfed er ei fod yn ymddangos yn 'lân'.)</li> </ul> <p><b>Ysgrifennu i gyflwyno gwybodaeth ac i roi cyfarwyddiadau</b> <b>Math testun: ffeil o ffeithiau neu adroddiad heb fod mewn trefn amser</b></p>	<p>Deunyddiau Asesu Opsiynol Uned 7</p> <p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/N/TC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/N/TC/2009-10/science/cripsat/e24-changing-materials/index.html</a></p> <p><a href="http://www.mikecurtis.org.uk/ks2_mixtures.htm">http://www.mikecurtis.org.uk/ks2_mixtures.htm</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dewis meini prawf llwyddiant? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dewis a chyfiawnhau meini prawf llwyddiant? (Lefel 5)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu dilyn y dull a gynlluniwyd a defnyddio offer safonol? (Lefel 4)</i></p>
<p><b>CYFATHREBU</b> <i>Cyfathrebu'n glir ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy luniau</i></p> <p><b>DATBLYGU</b> <i>Ffurio barn ystyriol a dod i benderfyniadau deallus</i></p> <p><b>MYFYRIO</b> Disgrifio newidiadau i'r dull/ymagwedd a gynlluniwyd</p>	<p><b>8. Y Cwestiwn Mawr: Sut allwn berswadio mwy o bobl i ailgylchu?</b></p> <p><b>Ailgylchu: DYG Uned 3</b></p> <p><b>Cyflwyno'r sgil – Cyfathrebu'n glir ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy luniau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Esbonio wrth y disgyblion bod angen iddynt wneud cyflwyniad i'w gilydd. Pwrpas y cyflwyniad yw rhoi gwybod i'r gynulleidfa am faterion yn ymwneud ag ailgylchu a chodi ymwybyddiaeth o ailgylchu yn yr ardal leol. Trafod meini prawf llwyddiant.</li> </ul> <p><b>Ymarfer y sgil – Cyfathrebu'n glir ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy luniau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn grwpiau, gofyn i'r disgyblion feddwl am yr hyn y maent yn ei wybod am wastraff ac ailgylchu. Trafod a rhannu eu syniadau gyda'r dosbarth.</li> <li>• Gofyn i'r disgyblion wneud nodiadau am eu prif syniadau, ac yna ystyried sut i gyfleu eu neges mewn cyflwyniad byr. Gallent nodi eu syniadau ar y Ffurflen Ymholiad. Annog y disgyblion i feddwl am ffyrdd diddorol o gyflwyno'u gwybodaeth, e.e. celf, cardiau fflach, posteri, siartiau, clipiau fideo ac ati.</li> <li>• Perfformio'u cyflwyniad o flaen cynulleidfa.</li> <li>• Gallai'r disgyblion ysgrifennu a pherfformio rap am wastraff ac ailgylchu. Gellid uwchlwytho hon ar wefan yr ysgol.</li> </ul>	<p>DYG Uned 3</p> <p><a href="http://resources.hwb.wales.gov.uk/N/TC/2009-10/science/cripsat/E22-The-Earth-s-Resources/index.html">http://resources.hwb.wales.gov.uk/N/TC/2009-10/science/cripsat/E22-The-Earth-s-Resources/index.html</a></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu cyfathrebu gan ddefnyddio iaith wyddonol, gan gynnwys tablau a siartiau? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu trefnu a chyflwyno'u canfyddiadau gan integreiddio gwahanol ffyrdd mewn cyflwyniadau amrywiol? (Lefel 5)</i></p>
<p><b>MYFYRIO</b> <i>Disgrifio sut y maent wedi dysgu, a nodi'r ffyrdd a weithiodd orau.</i></p> <p>Cysylltu'r dysgu â sefyllfaoedd tebyg, yn yr ysgol ac mewn mannau eraill.</p>	<p>Ailedrych ar yr asesiad dechreuol. A yw'r disgyblion yn gallu dangos dealltwriaeth ar ddiwedd y testun a thrafod sgiliau newydd a ddysgwyd a/neu a ymarferwyd?</p> <p>Adolygu dealltwriaeth y disgyblion o gysyniadau allweddol: solidau, hylifau, nwyon, toddi, oeri, rhewi, anweddiad, cyddwysiad, cildroadwy, anghildroadwy, hydoddi, hydawdd, anhydawdd.</p>	<p><b>Defnyddio strategaeth Asesu ar gyfer Dysgu ddewisedig</b></p>	<p><i>A yw'r disgyblion yn gallu disgrifio sut y maent wedi dysgu a nodi'r ffyrdd a weithiodd orau? (Lefel 4)</i></p> <p><i>A yw'r disgyblion yn gallu nodi'r strategaetau meddwl/dysgu a ddefnyddiwyd? (Lefel 5)</i></p>
<p>Gwerthuso</p>			